

TREFNIADAU ARGYFWNG

Pan glywch y larwm tân



Gwnewch y Pethau Canlynol

Rhowch y gorau i weithio ar unwaith

Os yw'n ddiogel gwneud hynny, diffoddwch offer a chau'r drysau

Gadewch yr adeilad trwy'r allanfa ddiogel agosaf, a mynd i fan ymgynnull

Rhowch wybod am unrhyw gydweithwyr sydd ar goll neu bobl anabl sydd wedi dewis aros mewn Man Aros Diogel

Dychwelyd i'r adeilad pan fydd staff Diogelwch neu'r Gwasanaethau Brys yn dweud bod hynny'n iawn

TREFNIADAU ARGYFWNG

Pan glywch y larwm tân



Peidiwch â Gwneud y Canlynol

Defnyddio lifftiau

Mynd ag eiddo personol gyda chi, cario diodydd poeth ac ati

Mynd yn ôl i mewn i'r adeilad hyd nes bod staff Diogelwch neu'r Gwasanaethau Brys yn dweud wrthyhch

Sefyll yn rhy agos at yr adeilad neu rwystro llwybrau brys

Gadael y Man Ymgynnull e.e. eistedd yn eich car, mynd am goffi

TREFNIADAU ARGYFWNG

Os na allwch adael yr adeilad yn defnyddio'r grisiau

Mae Mannau Aros Diogel wedi cael eu cynllunio i bobl aros ynddynt yn ystod tân neu argyfwng arall.

Mae gan y rhan fwyaf o Fannau Aros Diogel systemau cyfathrebu sy'n cysylltu â'r adran Ddiogelwch er mwyn i bobl fedru aros yn y Man Aros Diogel yn disgwyl am gyfarwyddiadau pellach. Dylech hefyd eu defnyddio, er enghraifft, os yw'r lifft wedi torri a'ch bod chi yn methu â gadael y llawr hwnnw.



Dyma symbol y
Mannau Aros
Diogel



MYND O GWMPAS PRIFYSGOL BANGOR

Yn ym gobeithio y bydd y ddogfen hon yn eich helpu i fynd o gwmpas yr adeiladau aca Mhrifysgol Bangor. Ynndi, cewch wybod lle i barcio, a oes lifftiau, ac am y manau lloed a gael y mae angen ichi fynd iddynt mewn argyfwng. Gan fod rhannau o Fangor yn serth, e.g. efallai y byddai'n syniad da ichi ymgyfarwyddo â'r ardal cyn cychwyn gweithio / astyngol. Mae 'Cyf Map' yn cyfeirio at Fap y Campws:
<http://www.bangor.ac.uk/tour/LocationMap.pdf>.

Mae'r ddogfen 'Mynd o Gwmpas Bangor' sydd ar gael ar y Wefan Iechyd a Diogelwch yn rhoi manylion ynglŷn â ble mae'r Mannau Aros Diogel yn adeiladau'r Brifysgol.





Mae llawer iawn o wybodaeth arall i gefnogi staff hefyd ar gael.

TREFNIADAU ARGYFWNG

Os ydych yn cynnau neu'n darganfod tân



**Blwch
Larwm**

-  **Seiniwch y larwm yn syth yn defnyddio Blwch Larwm**
-  **Cysylltwch ag adran Ddiogelwch y Brifysgol est 333 / 2795 ar Timau neu 01248 38 2795**
-  **Os yw'n ddiogel gwneud hynny, diffoddwch offer a chau'r drysau**
-  **Gadewch yr adeilad trwy'r allanfa ddiogel agosaf, a mynd i fan ymgynnull**

TREFNIADAU ARGYFWNG

Arwyddion tân cyffredin




**Arwyddion ar
allanfeydd tân:**
Cyfarwyddyd ar sut i
adael yr adeilad yn
gyflym



**Arwyddion
gorfodol:** Mae'n
rhaid i chi wneud
beth mae'r
arwydd yn ei
ddweud



**Man Aros
Diogel:**
Yn
cynnwys
manylion
am beth
i'w wneud



**Man
Ymgynnull:**
Dyma ble dylid
aros yn ddiogel
ar ôl gadael yr
adeilad



**Hysbysiadau
ymateb tân:** Maent
i'w gweld ym mhob
adeilad. Maen nhw'n
darparu gwybodaeth
diogelwch tân
gyffredinol